

Arolygiad Dilynol (Dirybudd)

Gwasanaethau Llawfeddygol:
Trawma ac Orthopedig, Ysbyty
Bronglais, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 11 Medi 2018

Dyddiad cyhoeddi: 13 Rhagfyr
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	12
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	20
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	29
4.	Beth nesaf?	31
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	32
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	34
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	35

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol, dirybudd o wasanaethau llawfeddygol yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 11 Medi 2018. Ymwelwyd â'r ardaloedd clinigol canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Ceredig (ward llawfeddygol ar gyfer llawfeddyfaeth drawma¹, llawfeddygaeth orthopedeg wedi'i threfnu a llawfeddygaeth gyffredinol)
- Theatrau Uned Llawdriniaethau Dydd (gan gynnwys ardaloedd derbyn, theatrau ac ardaloedd ymadfer)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC a dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un rheolwr theatr, un uwch nyrs). Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Diben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar y gwelliannau a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2017.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

¹ Llawfeddyfaeth orthopedig (esgyrn) heb ei threfnu yw llawfeddygaeth drawma.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd ar ôl yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ymateb i'r meysydd i'w gwella y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr arolygiad blaenorol
- Goruchwyllo gan reolwyr a pha mor weladwy ydynt ar y ward
- Darparu cymorth ffisiotherapi
- Rhyngweithio gan y staff.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Lefelau staffio
- Asesiadau gofal cymdeithasol
- Rhai elfennauo reoli heintiau ac asesiadau risg cyffredinol
- Darparu prydau bwyd
- Cyfathrebu â'r cleifion
- Storio cyfarpar.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau gofal iechyd ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu drwy ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optometryddion a safleoedd eraill.

Adeiladwyd ysbyty Bronglais yn 1966 ac mae wedi'i leoli yn Aberystwyth, canolbarth Gorllewin Cymru, gan wasanaethu ardal eang. Mae'r ysbyty yn gymharol fach ac, o ganlyniad i hynny, caiff rhai cleifion eu hatgyfeirio at ysbytai yng Nghaerfyrddin, Abertawe a thu hwnt. Mae gan yr ysbyty tua 150 o welyau ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau i gleifion mewnol ac allanol ynghyd ag adran Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol yn cynnwys y canlynol:

- Y broses trallwyso gwaed
- Rhoi ocsigen i'r cleifion wrth eu troslwyddo o'r theatr i'r ardal ymadfer
- Trefniadau paratoi adroddiadau a gwneud penderfyniadau
- Y ffordd mae'r staff yn troslwyddo gwybodaeth cyn ac ar ôl llawdriniaethau cleifion
- Sicrhau mynediad prydlon i gleifion y mae angen llawfeddygaeth drawma arnynt
- Sicrhau nad yw'r cleifion yn mynd heb fwyd a diod am fwy o amser nag sydd angen
- Cwblhau camau diogelwch allweddol yn y theatr
- Sicrhau dull cyson o roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion.

Gwelliannau roedd angen eu gwneud ar unwaith a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

Safon 2.8

- Er mwyn hybu diogelwch y cleifion a meithrin dull cyson o ddysgu o diwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau'r canlynol:
 - bod y staff sy'n gyfrifol am roi cynhyrchion gwaed i'r cleifion yn cwblhau'r holl wiriadau diogelwch priodol ac yn dogfennu'r rhain yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd ar roi cynnyrch gwaed.
 - bod dull cyson yn cael ei ddilyn gan y staff i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion gwaed.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Prif Nyrs y Ward ac Uwch Reolwr Nyrsio i sicrhau ar unwaith mai dim ond ffurflenni presgripsiwn trallwysu gwaed Cymru Gyfan sydd ar gael ar y ward
- Bydd Clerc y Ward yn sicrhau bob wythnos mai dim ond ffurflennu presgripsiwn trallwysu gwaed Cymru Gyfan sydd ar gael ar y ward.
- Bydd Prif Nyrs y Wars yn sicrhau bod Nyrsys Cofrestedig yn ymwybodol o'r ddogfennaeth a'r gwiriadau diogelwch priodol wrth roi cynhyrchion gwaed
- Bydd pob Nyrs Gofrestedig ar Ward Ceredig yn dangos ei bod wedi darllen a deall Polisi Trallwysu'r bwrdd iechyd
- Bydd y ddwy Nyrs Gofrestedig sy'n ymwneud â rhoi'r gwaed yn cael eu cofrestru ar gyfer hyfforddiant gloywi ar drallwysu gwaed
- Bydd cymwyseddau a chofnodion hyfforddiant trallwysu gwaed yn cael eu gwirio ar gyfer pob Nyrs Gofrestedig ar Ward Ceredig er mwyn dangos cymhwysedd
- Bydd Uwch Reolwr Nyrsio Ward Ceredig yn cynnal hapwiriadau wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi trallwysu gwaed am chwe wythnos, ac yn cynnal hapwiriadau achlysurol wedi hynny

- Llythyr i bob ardal glinigol ym maes Gofal wedi'i Drefnu² yn atgoffa'r staff o'r angen i gydymffurfio â pholisi trallwysu gwaed y bwrdd iechyd a'r angen i ddefnyddio Datix³ i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thrallwysu gwaed
- Cynhelir hapwiriadau ym mhob un o ardaloedd aciwt yr ysbyty er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi trallwysu gwaed
- Rhoddir gwybod i bob aelod o'r staff am y broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion gwaed ar system Datix.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella Uniongyrchol.

Gwelliannau roedd angen eu gwneud ar unwaith a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

Safonau 2.1 a 2.6

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hybu iechyd y cleifion ar adegau pan gaiff y cleifion eu trosglwyddo o'r theatr llawdriniaethau i'r ardal ymadfer. Yn fwy penodol, mae angen i AGIC gael sicrwydd bod ocsigen ychwanegol ar gael i'r cleifion ac yn cael ei roi iddynt pryd bynnag y bo angen.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

² Term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw iechyd neu ofal cymdeithasol a gaiff ei drefnu ymlaen llaw yw gofal wedi'i drefnu.

³ Meddalwedd ar y we ar gyfer rheoli risg a rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yw Datix.

- Caiff llythyr ei anfon at bob aelod o'r staff clinigol yn y Theatr, yr Uned Llawdriniaethau Dydd ac Anastheteg ym mhob rhn o'r bwrdd iechyd yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i gydymffurfio â'r sail dystiolaeth
- Cynhelir hapwiriadau o'r ymarfer ym mhob Theatr.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella Uniongyrchol.

Gwelliannau roedd angen eu gwneud ar unwaith a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd a Safon 7.1

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i hybu darpariaeth o ofal diogel a phrydlon i'r cleifion, gan gynnwys y canlynol:
- Y ffordd y rhoddir gwybod i'r staff sy'n gweithio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd am y llinellau adrodd cywir sy'n berthnasol i'r meysydd lle maent yn gweithio/lle mae ganddynt gyfrifoldeb
- Y trefniadau sydd ar waith er mwyn grymuso'r staff i wneud penderfyniadau yn brydlon.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Y strwythur Gofal wedi'i Drefnu i gael ei ddosbarthu i bob tîm Triwriaeth a thîm clinigol ym maes Gofal wedi'i Drefnu
- Caiff pob aelod o'r staff ym maes Gofal wedi'i Drefnu ei atgoffa o'i drefniadau o ran rheolwyr llinell ac uwchgyfeirio
- Adolygiad o'r Pwysau Brys a'r Weithdrefn Uwchgyfeirio i gael ei gynnal ar bob un o safleoedd yr ysbyty a'i gyfleu fel sy'n briodol. Yn benodol, sicrhau bod gweithdrefnau gweithredu safonol ar waith ar gyfer pob maes uwchgyfeirio ar bob un o safleoedd yr ysbyty.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella Uniongyrchol.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus. Gwelsom staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth am ofal cleifion yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol ar bob cam o'r llwybr llawfeddygol.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Cynhaliwyd dau gyfarfod llwybr cleifion mewnol llawfeddygol ar 19 Mai a 28 Gorffennaf gyda staff Ward Ceredig a'r Theatr. Caiff amserlen o gyfarfodydd misol ei rhoi ar waith
- Bydd tystiolaeth o archwiliad arsylwadol o'r trefniadau trosglwyddo o'r Ward i'r Theatr yn cael ei chyflwyno bob mis am dri mis er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ymwreiddio yn yr ymarfer
- Caiff y broses o drosglwyddo rhwng y Theatr a'r Ardal Ymadfer ei safoni drwy gytuno ar gyfres o feini prawf ar gyfer trosglwyddo
- Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa drwy lythyr i gyflwyno eu hunain i'r cleifion
- Caiff archwiliad sy'n rhan o fenter gwella ansawdd ei gynnal ar Ward Ceredig er mwyn canfod a yw'r staff yn cyflwyno eu hunain

- Caiff canlyniadau'r archwiliad eu rhannu mewn cyfarfodydd ward ac yn y cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gofal wedi'i Drefnu
- Byddwn yn lansio ymgyrch "Helo, fy enw i yw..."⁴ ar Ward Ceredig yn dilyn yr archwiliad cychwynnol
- Byddwn yn cynnal archwiliad arall o brofiad y cleifion o'r staff yn cyflwyno eu hunain er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ymwreiddio yn yr ymarfer

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Er i ni weld tystiolaeth bod dau Gyfarfod Llwybr Cleifion Mewnol Llawfeddygol wedi cael eu cynnal ar 19 Mai a 28 Gorffennaf gyda staff Ward Ceredig a'r Theatr, nid oes amserlen o gyfarfodydd misol wedi cael ei rhoi ar waith.

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn cymryd amser i esbonio pethau iddynt fel arfer. Fodd bynnag, dywedodd un claf nad oedd hyn yn digwydd yn gyson a'i fod heb gael gwybodaeth gywir am yr angen iddo beidio â bwyta nac yfed cyn cael llawdriniaeth. Soniodd hefyd ei fod wedi cael ei symud o ward arall ac i leoliadau gwahanol o fewn y ward heb unrhyw esboniad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cyfarfodydd Llwybr Cleifion Mewnol Llawfeddygol yn cael eu cynnal bob mis, fel y nodir yn y Cynllun Gwella a luniwyd ar ôl yr arolygiad blaenorol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cyfathrebu'n effeithiol â'r cleifion a bod y cleifion yn cel gwybodaeth gynhwysfawr ac esboniad clir o bob agwedd

⁴ Ymgyrch sy'n annog y staff i gyflwyno eu hunain yw ["Helo, fy enw i yw..."](#).

ar y gofal a ddarperir.

Gofal amserol

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am amgylchiadau cartref y cleifion, a allai effeithio ar y broses o'u rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth, yn cael ei chasglu a'i rhannu'n brydlon ag aelodau perthnasol o'r staff. Nod hyn yw osgoi oedi wrth ryddhau cleifion cyhyd ag sy'n ymarferol
- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod cleifion yn cael eu derbyn yn brydlon o'r adran achosion brys i'r ward trawma
- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i leihau'r amser y mae'n ei gymryd i gleifion trawma oedrannus gael llawdriniaethau
- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod system glir ar waith ar gyfer blaenoriaethu cleifion a rhestru cleifion ar gyfer llawdriniaethau heb eu trefnu.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Cynnal adolygiad o'r wybodaeth a gesglir mewn rhagasesiadau a chymryd camau i sicrhau y caiff anghenion gofal cymdeithasol y cleifion eu nodi a'u cyfleu
- Cafodd menter Coch i Wyrdd⁵ ei rhoi ar waith ar Ward Ceredig yn Ysbyty Bronglais ym mis Gorffennaf 2017. Caiff y fenter ei chyflwyno ymhellach yn ein holl Wardiau Trawma ac Orthopedeg

⁵ Mae menter Coch i Wyrdd yn diffinio 'diwrnodau coch' fel y diwrnodau hynny nad ydynt yn cyfrannu at ryddhau claf o'r ysbyty a, thrwy gydweithio'n well â'i gilydd, gall

- Mae data o'r fenter yn cael eu casglu. Bydwn yn dadansodi'r data er mwyn nodi rhesymau dros oedi a ffyrdd o ddatrys rhwystrau
- Monitro hyd cyfnod pobl yn yr ysbyty a'r rhesymau dros oedi er mwyn sicrhau na ellir priodoli unrhyw achosion o oedi i asesu a chynllunio gwael
- Rhoi rhagrybudd ar waith ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr (FNOF) er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n ymwybodol bod claf o'r fath ar ei ffordd i mewn ac yn gallu ymateb yn brydlon i'r asesiad o'r claf a chanfod a pharatoi gwely ar y ward fwyaf priodol
- Bydd egwyddor neilltuo gwely trawma yn cael ei hymgorffori yn yr egwyddorion uwchgyfeirio a rheoli safle yn yr un ffordd â gwely strôc ac ati. Y nod yw cadw gwely wedi'i ddiogelu ar lefelau uwchgyfeirio 1-3
- Cwblhau'r gronfa ddata trawma a'i rhoi ar waith er mwyn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gleifion oedrannus gael llwdriniaethau a blaenoriaethu cleifion ar gyfer llawdriniaethau.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Fodd bynnag, wrth arolygu sampl o ffeiliau gofal, gwnaethom ganfod nad oedd rhagasesiadau o anghenion gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd menter Coch i Wyrdd wedi cael ei rhoi ar waith fel y nodir yn y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y fenter yn gweithio mor effeithiol â'r disgwyl. Mae menter wedi'i haddasu wedi cael ei mabwysiadu bellach, ac roedd y fenter hon ar waith ar adeg yr arolygiad hwn.

y staff leihau nifer y diwrnodau coch a chael 'diwrnodau gwyrdd' sy'n ychwanegu gwerth yn eu lle. 'Diwrnodau gwyrdd' yw diwrnodau pan fydd claf yn cael ymyriad sy'n cefnogi ei lwybr gofal allan o'r ysbyty ac i'r lleoliad gorau ar gyfer ei anghenion.

Er i'r amser y mae'n ei gymryd i gleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr gael llawdriniaeth wella rhywfaint, gwelsom fod achosion o oedi'n digwydd mewn rhai achosion. Cafodd y rhain eu priodoli, ar y cyfan, i oedi wrth gynnal rhai ymchwiliadau a phrofion cyn llawdriniaeth. Caiff y broblem hon ei dwysáu ymhellach gan y ffaith nad oes rhestr trawma benodedig, a dim ond dwy theatr sy'n cael eu defnyddio yn yr ysbyty o hyd. Rhagwelir y caiff y gwaith o adnewyddu'r ddwy theatr arall ei gwblhau ym mis Tachwedd 2018. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i ni y bydd yr uned gofal dwys yn cael ei symud dros dro i'r theatrau newydd eu hadnewyddu am gyfnod wrth i'r uned honno gael ei hadnewyddu. Wedyn, bydd y theatrau'n weithredol ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

Gwelsom fod system rhagrybuddio ar waith ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr. Roedd y staff meddygol yn ymateb yn brydlon i dderbyniadau o'r fath a gwnaethant gadarnhau bod 100% o'r cleifion yn cael eu trosglwyddo o'r adran achosion brys i'r ward o fewn y cyfnod disgwyledig o bedair awr.

Rhoddwyd gwybod i ni nad yw'r egwyddor o gadw gwely i'w ddefnyddio ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr yn unig yn cael ei dilyn yn gyson bob amser, oherwydd pwysau ar argaeledd gwelyau yn yr ysbyty ar adegau penodol.

Gwelsom fod y staff ar y ward yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhagasesiadau o anghenion gofal cymdeithasol cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod yr asesiadau hyn yn cael eu dogfennu'n ffurfiol mewn ffeiliau gofal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i archwilio'r llwybr gofal cleifion er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth yn brydlon ac nad oes unrhyw achosion o oedi y gellir eu priodoli i asesu a chynllunio gwael.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r arfer o gadw gwely i'w ddefnyddio ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr yn unig, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth yn brydlon.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i wella perfformiad mewn rhaglen cleifion trawma oedrannus mewn perthynas â'r canlynol: sicrhau bod cleifion yn symud ar ôl cael llawdriniaethau a lleihau'r gyfradd o ofal nad yw'n llawdriniaeth ar gyfer achosion o dorri clun.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Ffisiotherapyddion i roi cynllun symud ar waith ar gyfer cleifion trawma oedrannus ar Ward Ceredig yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau
- Staff nyrsio ar Ward Ceredig i gael eu hatgoffa ar adeg trosglwyddo ac mewn cyfarfodydd ward o'u cyfrifoldeb i symud cleifion a dilyn y cynllun symud
- Adolygiad ôl-weithredol o'r Gronfa Ddata Genedlaethol Torri Clun (NHFD)⁶ er mwyn canfod a yw'r gyfradd o ofal nad yw'n llawdriniaeth ar gyfer torri clun yn Ysbyty Bronglais yn cyd-fynd â'r duedd
- Bydd y cyfarfod NHFD yn monitro a chraffu ar y rhesymau dros driniaeth nad yw'n llawdriniaeth ar gyfer achosion o dorri clun

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y llwybr gofal ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr yn cael ei roi ar waith yn llawn. Dywedwyd wrthym bod y ddogfennaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

⁶ <http://www.nhfd.co.uk/>

Gwelsom fod prosesau cynllunio gofal da ar y cyfan ar waith a oedd yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal.

Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd gwblhau'r adolygiad o ddogfennaeth a ffurfioli'r llwybr gofal ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr a'i roi ar waith heb unrhyw oedi pellach.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i godi ymwybyddiaeth y cleifion a'u gofalwyr o'r ffordd y gallant roi adborth ar eu profiadau.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Mae taflen wybodaeth syml wedi cael ei chyflwyno er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion pwy sy'n gofalu amdanynt a sut i gael gwybodaeth neu godi pryderon
- Mae ffurflenni adborth cleifion a blwch adborth wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn cynnig cyfle i roi adborth mewn amser real a'n helpu i ddeall barn y cleifion ar y ward a'u gofal. Bydd Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Nyrs yn bwrw golwg dros y rhain bob wythnos. Caiff hyn ei rannu yn nghyfarfodydd Ward Ceredig a'r cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gofal wedi'i Drefnu
- Prif Nyrs y Ward i gerdded o gwmpas yn ddyddiol i geisio adborth gan y cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon
- Bydd Ward Ceredig yn cynnal Arolwg Cleifion y Safonau Iechyd a Gofal bob mis am chwe mis. Bydd Prif Nyrs y Ward a'r Uwch Nyrd yn bwrw golwg dros y canfyddiadau ac yn dangos tystiolaeth o gamau gweithredu priodol. Caiff hyn ei rannu yn nghyfarfodydd Ward Ceredig a'r cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gofal wedi'i Drefnu

- Mae taflenni Gweithio i Wella ar gael yn yr ystafell ddydd a bydd y stoc yn cael ei gwirio'n wythnosol gan Glerc y Ward
- Nodi cyfleoedd eraill i geisio adborth gan gleifion a manteisio ar y cymorth gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Profiad Cleifion.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Fodd bynnag, yn yr arolygiad gwelsom nad oedd posteri na thaflennu Gweithio i Wella ar y ward ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod posteri a thaflenni Gweithio i Wella ar gael ar Ward Ceredig, a bod y stoc o daflenni'n cael ei gwirio'n rheolaidd, fel y nodir yn y Cynllun Gwella a luniwyd yn dilyn yr arolygiad blaenorol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn monitro cyflwr cleifion a helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd y ward yn lân ac roedd trefniadau ar waith i leihau croesheintio. Fodd bynnag, ceir rhai problemau o hyd mewn perthynas â storio offer yn ddiogel ar y ward.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i adolygu'r ffordd y caiff offer eu storio ar y ward a chymryd camau fel y bo'n briodol i leihau'r risg o anaf i'r cleifion a'r staff.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i hyrwydo dull syon o roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a dysgu a rennir.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Mae'r Uwch Reolwr Nyrsio a'r Rheolwr Cynorthwyol Gweithrediadau Safle, Ystadau wedi cerdded o gwmpas y ward gyfan i adolygu'r trefniadau storio a'r offer ar Ward Ceredig er mwyn nodi cyfleoedd i wella

- Caiff canfyddiadau o'r ymarfer hwn eu cofnodi, caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu a rhoddir gwybod am gynnydd drwy gyfarfodydd Ward Ceredig a'r cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gofal wedi'i Drefnu
- Offer nad ydynt yn hanfodol i gael eu symud o'r coridor a'r Uwch Reolwr Nyrsio Gofal wedi'i Drefnu ac Uwch Brif Nyrs Ward Ceredig i fonitro'n ddyddiol a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch storio wrth iddynt godi
- Eir i'r afael â mater storio gwelyau dros ben ar ôl i'r storfa llyfrgell a nodwyd gael ei hadnewyddu
- Asesiadau risg i gael eu cwblhau er mwyn dangos tystiolaeth o'r adolygiad o'r amgylchedd a'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i liniaru'r risg i gleifion, yn enwedig cleifion sy'n wynebu risg o gwmpo
- Y safonau cofnodi digwyddiadau ar Datix i gael eu rhannu drwy lythyr â'r staff Theatr a staff y ward gan y Pennaeth Nyrsio Gofal wedi'i Drefnu
- Pob aelod o'r staff Theatr a staff y ward i gael eu hatgofa i ddefnyddio cyfeiriad e-bost GIG Cymru wrth gofnodi digwyddiadau ar Datix (er mwyn cael adborth)
- Themâu o ddigwyddiadau a gwersi a ddysgwyd i gael eu cynnwys yn rheolaidd ar agenda cyfarfodydd Theatr a thystiolaeth o hynny i gael ei dangos drwy gofnodion cyfarfodydd tîm.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Gwelsom fod offer nad ydynt yn hanfodol yn cael eu storio'n briodol pan na chânt eu defnyddio. Fodd bynnag, roedd coridor y ward yn ymddangos yn anniben, yn enwedig yn ystod cyfnod prysur y bore pan oedd mwy o offer fel trolïau a theclynnau codi yn cael eu defnyddio. Mae angen monitro hyn.

Rhoddwyd gwybod i ni bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael cyfeiriadau e-bost GIG Cymru a bod hyn yn cael ei gadarnhau yn ystod cyfarfodydd adolygu perfformiad a datblygiad unigol. Fodd bynnag, oherwydd nifer y staff dan sylw, roedd y broses hon yn dal i fynd rhagddi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i adolygu'r ffordd y caiff offer eu storio ar y ward a chymryd camau fel y bo'n briodol i leihau'r risg o anaf i'r cleifion a'r staff.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'r dasg o roi cyfeiriadau e-bost GIG Cymru i bob aelod o'r staff.

Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod y trefniadau ar y ward yn lleihau'r risg o groes-heintio rhwng gwahanol grwpiau o gleifion llawfeddygol (cleifion trawma, cleifion orthopedig dewisol a chleifion llawfeddygaeth gyffredinol) cymaint â phosibl.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Egwyddorion ar gyfer lleoli cleifion ar Ward Ceredig i gael eu drafftio a'u rhoi ar waith
- Bydd Tîm Safle'r Ysbyty yn dilyn yr egwyddorion atal a rheoli heintiau wrth ddyrannu gwelyau ar Ward Ceredig
- Caiff pob claf ei drafod mewn cyfarfod gwelyau er mwyn sicrhau bod materion yn ymwneud ag Atal a Rheoli Heintiau wedi cael eu hystyried
- Eithriadau rhag cydymffurfio i gael eu cofnodi fel digwyddiadau ar Datix a'u monitro gan yr Uwch Reolwr Nyrsio

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella. Fodd bynnag, credwn fod angen monitro'r cymysgedd o gleifion ar y ward yn barhaus i sicrhau bod cleifion trawma, orthopedig a llawfeddygaeth gyffredinol yn cael eu gwahanu'n ddigonol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn diogelu cleifion orthopedig dewisol sy'n cel llawdriniaethau ar y cymalau.

Yn ystod taith o gwmpas y ward, gwelsom gadair â ffrâm bren yn cael ei storio yn un o'r ystafelloedd ymolchi. Ystyriwyd bod hyn yn peri risg o groes-heintio gan nad oedd y pren yn anhydraidd i hylifau a micro-organebau. Tynnwyd sylw'r Uwch Reolwr Nyrsio at hyn a chymerodd gamau ar unwaith i symud y gadair o'r ystafell.

Hefyd, gwelsom fod dau gynhwysydd pum litr o siampw yn cael eu storio ar y llawr mewn dwy ystafell ymolchi. Nid yn unig y mae hyn yn peri risg o groes-heintio a risg iechyd a diogelwch gyffredinol, ond ystyrir bod defnyddio siampw cymunol yn arfer sefydliadol y dylid ei osgoi. Tynnwyd sylw'r Uwch Reolwr Nyrsio at hyn a chymerodd gamau ar unwaith i symud y cynhwysyddion siampw o'r ystafelloedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iecyd barhau i fonitro'r cymysgedd o gleifion ar y ward er mwyn sicrhau bod cleifion trawma, orthopedig a llawfeddygaeth gyffredinol yn cael eu gwahanu'n ddigonol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd annog yr ysbyty i beidio â defnyddio cynhwysyddion siampw pum litr i'w defnyddio'n gymunol gan gleifion ar y ward.

Maeth a hydradu

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau nad yw'r cleifion yn mynd heb fwyd a diod am gyfnodau diangen o amser
- Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i adolygu ansawdd ac argaeledd prydau bwyd mewn ymateb i adborth gan gleifion.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Data o'r archwiliad ymprydio diweddar i gael eu bwydo'n ôl i'r timau clinigol
- Llythyr i gael ei ddosbaerthu i'r timau clinigol yn eu hatgoffa o'r egwyddorion ar gyfer peidio â rhoi bwyd a diod i'r cleifion a chofnodi digwyddiadau ar Datix os caiff triniaethau cleifion trawma eu canslo
- Polisi Ymprydio'r Bwrdd Iechyd i gael ei gwblhau'n derfynol a'i roi ar waith

- Archwiliad ymptydio dilynol i gael ei gynnal o fewn chwe mis i roi'r polisi diwygiedig ar waith
- Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty a'r Rheolwr Arlwyio i gynnal arolwg wythnosol o brofiad y cleifion o brydau bwyd. Byddant yn parhau i archwilio pedwar claf yr wythnos ym mhob ardal i gleifion mewnol. Cymerir camau gweithredu priodol mewn perthynas ag unrhyw gyfleoedd i wella a nodir.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oedd y bwyd bob amser yn cael ei weini'n brydlon ac, o ganlyniad i hynny, ei fod weithiau'n oer.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i archwilio'r ffordd y caiff prydau bwyd eu darparu ar y ward.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau:

- ar gyfer storio cyffuriau mewnwythiennol ac anesthetig lleol mewn theatrau er mwyn hybu diogelwch y cleifion
- i sicrhau bod y staff yn dilyn polisi'r bwrdd iechyd ar gyfer cofnodi cyffuriau a wastreffir (h.y. cyffuriau na chânt eu rhoi i gleifion)
- i archwilio cyffuriau a reolir yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- storio cyffuriau mewnwythiennol ac anesthetig lleol ar wahân

- Gweithredu Cofrestr Cymru Gyfan ar gyfer Cyffuriau a Reolir mewn Theatrau
- Ym mhob lleoliad lle y caiff cyffuriau a reolir eu storio, cynhelir archwiliad bob 3-6 mis gan Fferyllfa yn unol â Pholisi Meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy arsylwi, trafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadu i sicrhau bod atgyfeiriadau diogelu'n cael eu cyfeirio'n gywir ac yn effeithion at dimau diogelu perthnasol.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Caiff neges e-bost gyffredinol ei dosbarthu er mwyn atgoffa'r staff mai tîm diogelu oedolion y bwrdd iechyd yw'r un pwynt cyswllt i gael cyngor a chymorth ynglŷn â phryderon a / neu atgyfeiriadau diogelu
- Bydd y siart llif ar gyfer atgyfeiriadau diogelu oedolion yn cael ei diweddarau a'i lanlwytho i Safle Mewnrrwyd y Bwrdd Iechyd
- Bydd hyfforddiant diogelu oedolion yn y bwrdd iechyd yn atgyfnerthu'r ffaith mai tîm diogelu oedolion y bwrdd iechyd yw'r un pwynt cyswllt i gael cyngor a chymorth.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Nid oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol ar adeg yr arolygiad hwn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod y safonau ar gyfer y Pum Cam at Lawfeddygaeth Fwy Diogel⁷ yn cael eu cyrraedd
- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod asesiadau risg Thromboembolws Gwythiennol (VTE) yn cael eu cwblhau'n gyson
- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i leihau'r risg o hypothermia yn ystod llawdriniaeth cymaint â phosibl, gan gynnwys gwirio tymheredd pob claf yn ystod llawdriniaethau
- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i leddfu poen pob claf yn effeithiol ar bob cam o'r llwybr cleifion llawfeddygol (cyn llawdriniaeth, yn ystod llawdriniaeth ac ar ôl llawdriniaeth).

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Llythyr at bob aelod o'r staff Theatr yn ei atgoffa o bwysigrwydd y Pum Cam at Lawfeddygaeth Fwy Diogel
- Archwiliad o gydymffurfiaeth i gael ei gwblhau bob mis am dri mis
- Ffurflenni risg VTE presennol i gael eu hadolygu gyda'r bwriad o'u cyfuno
- Ffurflenni asesu risg VTE i gael eu cadw gyda siartiau cyffuriau
- Monitro canlyniadau archwiliadau cydymffurfiaeth o asesiadau risg VTE y bwrdd iechyd ac ymateb iddynt
- Archwiliad o gofnodi tymereddau yn ystod llawdriniaethau

⁷ Rhestr wirio ar gyfer diogelwch llawfeddygol yw'r Pum Cam at Lawfeddygaeth Fwy Diogel. Mae'n cynnwys briffio, mewngofnodi, terfyn amser, allgofnodi a dadfriffio, ac mae bellach yn cael ei hyrwyddo gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ar gyfer pob claf yng Nghymru a Lloegr sy'n cael llawdriniaethau.

- Mae archwiliad o sgoriau poen a threfniadau rheoli poen wedi cael ei gynnal ar Wardiau Ceredig a Rhiannon a chaiff ei gynnal eto bob mis am chwe mis
- Caiff canlyniad yr archwiliad ei drafod â'r tîm amlddisgyblaethol ac mewn cyfarfodydd ward, a chaiff cynlluniau gweithredu eu datblygu fel y bo'n briodol
- Cynhelir adolygiad o drefniadau rheoli poen ar bob cam o'r llwybr cleifion llawfeddygol ar y cyd â'r tîm amlddisgyblaethol drwy gyfarfod y Llwybr Cleifion Llawfeddygol er mwyn sicrhau y caiff anghenion y cleifion o ran lleddfu poen eu diwallu.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gwella.

Roedd hosanau cywasgu gwrth-emboledd yn cael eu rhagnodi a'u rhoi i'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y staff a oedd yn rhoi'r hosanau am draed y cleifion yn llofnodi'r siartiau rhoi meddyginiaeth i adlewyrchu hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn llofnodi siartiau rhoi meddyginiaeth pan fyddant yn rhoi hosanau cywasgu gwrth-emboledd a ragnodir i'r cleifion.

Cadw cofnodion

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i hyrwyddo arferion cadw cofnodion sy'n cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Llythyr yn pwysleisio'r safonau ar gyfer cadw cofnodion i gael ei roi i'r staff nyrsio a meddygol ym maes Gofal wedi'i Drefnu.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i'r maes i'w wella a nodir uchod, fel y nodir yn y Cynllun Arolygu.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Yn gyffredinol, gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr adran, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr yr adran.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Roedd y strwythur rheoli wedi cael ei ddiwygio yn dilyn yr adolygiad blaenorol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a'r staff wedi gwella a'i fod yn effeithiol ar y cyfan.

Mae strwythur rheoli cadarn a chryf wedi cael ei roi ar waith yn y theatrau llawdriniaethau bellach, ac mae pob aelod o'r staff yn deall, pan gânt eu holi, beth yw'r llinell adrodd gywir.

Gwelir o'r wybodaeth a gyflwynwyd gan y gyfarwyddiaeth Theatr a'r staff Theatr fod diwylliant ar waith bellach sy'n anelu at wella, ac mae hyn hefyd i'w weld yn nifer y problemau sydd bellach wedi cael eu datrys.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelliannau a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad blaenorol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i'r staff ddilyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau.

Camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant i gael ei gwblhau a'i ddefnyddio i lywio'r broses o nodi a chomisiynu hyfforddiant priodol i'r staff Theatr
- Y staff Theatr i gael eu hatgoffa mewn Adolygiadau Arfarnu a Datblygiad Personol o'u cyfrifoldebau i nodi eu hanghenion hyfforddiant eu hunain a chynnal datblygiad proffesiynol parhaus
- Y fformat ar gyfer dysgu'r tîm amlddisgyblaethol i gael ei bennu'n derfynol a sesiynau hyfforddiant i gael eu trefnu ar diwrnodau archwilio.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau, drwy drafodaethau â'r staff ac archwilio dogfennau, fod yr ysbyty wedi ymateb i bob un o'r meysydd i'w gwella a nodir uchod, fel y nodir yn y Cynllun Gwella.

Fodd bynnag, gwelsom fod y ward yn brin iawn o staff ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu. Y rheswm dros hyn oedd bod rhai aelodau o'r staff i ffwrdd yn sâl ar fyr rybudd. Cafodd y mater ei uwchgyfeirio yn y bore a daethpwyd o hyd i staff ychwanegol.

Ar ôl yr arolygid, cawsom wybodaeth am hyfforddiant y staff. Roedd y wybodaeth a roddwyd yn dangos nad oedd pob aelod o'r staff a gyflogir ar Ward Ceredig wedi cwblhau pob elfen o'r hyfforddiant gorfodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro lefelau staffio ar y ward a rhaid iddo fod yn rhagweithiol wrth ddelio ag achosion o brinder.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau pob elfen o'r hyfforddiant gorfodol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgysfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgysfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod taith o gwmpas y ward, gwelsom gadair â ffrâm ben yn cael ei storio yn un o'r ystafelloedd ymolchi.	Ystyrir bod hyn yn peri risg o groes-heintio.	Tynnwyd sylw'r Uwch Reolwr Nyrsio at hyn.	Cymerwyd camau ar unwaith i symud y gadair o'r ystafell.
Gwelsom fod dau gynhwysydd pum litr o siampŵ yn cael eu storio ar y llawr mewn dwy ystafell ymolchi.	Mae hyn yn peri risg o groes-heintio a risg iechyd a diogelwch gyffredinol. Hefyd, ystyrir bod defnyddio siampŵ cymunol yn arfer sefydliadol.	Tynnwyd sylw'r Uwch Reolwr Nyrsio at hyn.	Cymerwyd camau ar unwaith i symud y cynhwysyddion siampŵ o'r ystafelloedd.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Bronglais, Ward Ceredig a Theatrau

Dyddiad arolygu: 11 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Bronglais, Ward Ceredig a Theatrau

Dyddiad arolygu: 11 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cyfarfodydd Llwybr Cleifion Mewnol Llawfeddygol yn cael eu cynnal bob mis, fel y nodir yn y Cynllun Gwella a luniwyd ar ôl yr arolygiad blaenorol.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae amserlen o gyfarfodydd misol wedi cael ei sefydlu. Dangosir tystiolaeth o'r cyfarfodydd drwy gofnodion pob cyfarfod.	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cyfathrebu'n effeithiol â'r cleifion a bod y cleifion yn cel gwybodaeth gynhwysfawr ac esboniad clir o bob agwedd ar y gofal a ddarperir.		Bydd y staff nyrsio'n bresennol mewn Rowndiau Bwrdd i gytuno ar gynllun gofal a chynllun cyfathrebu ar gyfer y cleifion. Caiff ffurflenni adborth cleifion eu	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	30 Tachwedd 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hadolygu bob mis. Caiff gwybodaeth cyn llawdriniaeth a gwybodaeth ar ôl llawdriniaeth ei darparu gan Feddyg Ymgynghorol ac Uwch Ymarferydd Nyrsio. Mae gwybodaeth am ddyddiaduron cleifion yn cael ei chasglu o hyd. Creffir ar y wybodaeth hon bob dau fis a chaiff cynlluniau gweithredu eu datblygu er mwyn gwella'r gwasanaeth. Caiff y broses ryddhau ei thrafod â'r claf ar adeg ei dderbyn i'r ysbyty a chaiff y cleifion a'u teuluoedd eu hannog i nodi eu hanghenion pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhagasesiadau o anghenion gofal cymdeithasol cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod yr asesiadau hyn yn cael eu dogfennu'n ffurfiol mewn ffeiliau gofal.	5.1 Mynediad amserol	Mae llythyr wedi cael ei anfon at bob aelod o'r staff sy'n cynnal rhagasesiadau i'w hatgoffa o'u cyfrifoldeb i asesu anghenion gofal cymdeithasol y cleifion. Cynhelir hapwiriadau misol o gofnodion	Mandy Nichols-Davies, Pennaeth Nyrsio Gofal wedi'i Drefnu	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		rhagasesiadau am chwe mis.	Helen George, Uwch Reolwr Nyrsio	30 Tachwedd 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i archwilio'r llwybr gofal cleifion er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth yn brydlon ac nad oes unrhyw achosion o oedi y gellir eu priodoli i asesu a chynllunio gwael.		Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd rhan yn archwiliad NHFD. Bydd y cyfarfodydd NHFD misol a gynhelir ar dri safle aciwt yn parhau i fonitro'r canlyniadau i'r cleifion. Bydd hyn yn cynnwys y llwybr gofal cleifion a gofal a thriniaeth brydlon ac yn gweithredu ynghylch unrhyw ffactorau sy'n arwain at asesu a chynllunio gwael.	Lydia Davies, Rheolwr Darparu Gwasanaethau, Trawma ac Orthopedeg	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r arfer o gadw gwely i'w ddefnyddio ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr yn unig, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth yn brydlon.		Mae egwyddor neilltuo gwely trawma wedi cael ei hymgorffori yn yr egwyddorion uwchgyfeirio a rheoli safle yn yr un ffordd â gwely strôc ac ati. Mae Tîm Safle'r Ysbyty yn anelu at gadw gwely wedi'i ddiogelu ar lefelau uwchgyfeirio 1-3. Ceisio cytundeb gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i roi rhagrybudd ar waith ar gyfer cleifion	Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty	Wedi'i gwblhau 30 Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sydd wedi torri gwddf y ffemwr cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd gwblhau'r adolygiad o ddogfennaeth a ffurfioli'r llwybr gofal ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr a'i roi ar waith heb unrhyw oedi pellach.	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	Cytunwyd ar lwybr gofal a rennir ar gyfer cleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr. Mae cynlluniau peilot yn cael eu cynllunio ar bob safle aciwt. Bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi'r llwybr ar waith yn llawn yn y tri ysbyty sy'n rheoli trawma ac orthopedeg.	Mohammed Yaqoob Arweinydd Clinigol	30 Medi 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod taflenni Gweithio i Wella ar gael ar Ward Ceredig, a bod y stoc o daflenni'n cael ei gwirio'n rheolaidd, fel y nodir yn y Cynllun Gwella a luniwyd yn dilyn yr arolygiad blaenorol.	6.3 Gwrandao a dysgu o adborth	Bydd Clerc Ward Ceredig yn gwirio a chynnal y stoc yn ddyddiol. Bydd yr Uwch Reolwr Nyrsio yn cynnal hapwiriad wythnosol.	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	Wedi'i gwblhau
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i adolygu'r ffordd y caiff offer eu storio ar y ward a chymryd camau fel y bo'n briodol i leihau'r risg o anaf i'r cleifion a'r staff.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae Llyfrgell Offer bellach yn weithredol ar y safle. Bydd yr Uwch Reolwr Nyrsio yn cynnal archwiliadau anffurfiol o'r amgylchedd	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio Gofal wedi'i Drefnu	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		dod dydd a hapwiriad ffurfiol bob mis.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'r dasg o roi cyfeiriadau e-bost GIG Cymru i bob aelod o'r staff.		Bydd cyfeiriad e-bost GIG Cymru yn cael ei roi i bob aelod newydd o'r staff pan gaiff ei gyflogi.	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	Wedi'i gwblhau
		Caiff adolygiad o'r staff presennol ar Ward Ceredig ei gwblhau er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gyfeiriad e-bost GIG Cymru.	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	31 Rhagfyr 2018
Rhaid i'r bwrdd iecyd barhau i fonitro'r cymysgedd o gleifion ar y ward er mwyn sicrhau bod cleifion trawma, orthopedig a llawfeddygaeth gyffredinol yn cael eu gwahanu'n ddigonol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi	Caiff y cymysgedd o gleifion ar Ward Ceredig ei adolygu'n ddyddiol gan rheolwyr y ward a'r Uwch Reolwr Nyrsio er mwyn atal y risg o groes-heintio. Caiff cynllun i wahanu cleifion orthopedig dewisol ei nodi a'i gynnal.	Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty	Wedi'i gwblhau 30 Mawrth 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd annog yr ysbyty i beidio â defnyddio cynwysyddion siampŵ pum litr ar y ward.		Caiff llythyr ei anfon at bob aelod o'r staff i'w atgoffa i beidio â rhannu pethau ymolchi rhwng cleifion.	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	30 Tachwedd 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i archwilio'r ffordd y caiff prydau bwyd eu darparu ar y ward.	2.5 Maethiad a Hydradiad	Bydd Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty a'r Rheolwr Arlwyd yn parhau i gynnal arolwg misol o brofiad y cleifion o brydau bwyd. Cymerir camau gweithredu priodol mewn perthynas ag unrhyw gyfleoedd i wella a nodir.	Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty	30 Tachwedd 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn llofnodi siartiau rhoi meddyginiaeth pan fyddant yn rhoi hosanau cywasgu gwrth-emboledd a ragnodir i'r cleifion.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei atgoffa'n anffurfiol i lofnodi siartiau rhoi meddyginiaeth pan fydd yn rhoi hosanau gwrth-emboledd i'r cleifion. Bydd llythyr am hyn yn cael ei anfon hefyd. Cynhelir hapwiriad misol am dri mis er mwyn monitro cydymffurfiaeth.	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	30 Tachwedd 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro lefelau staffio ar y ward a rhaid iddo fod yn rhagweithiol wrth ddelio ag achosion o brinder.	7.1 Y gweithlu	Mae tîm rheoli'r ysbyty yn parhau i fonitro lefelau staffio yn ddyddiol drwy gynnal asesiadau risg. Caiff mater trefnu nifer o staff asiantaeth ar gontract ei ailystyried er mwyn gwella	Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty	30 Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		parhad gofal. Cydweithio'n agos â'r adran recriwtio er mwyn cefnogi'r broses recriwtio leol. Mae sawl menter yn mynd rhagddi i ddatblygu staff, gan gynnwys hyfforddiant nyrsio'r Brifysgol Agored i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd, hyrwyddo hyfforddiant rhan-amser/dychwelyd i ymarfer a lefel 4 a gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Abertawe i sefydlu ysgol nyrsio leol yn Aberystwyth i gefnogi 20 o nyrsys dan hyfforddiant i ddechrau. Cyflwyno adolygiadau bob chwe mis o lefelau staffio yn unol â'r Ddeddf Lefelau Staffio (Cymru)	Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty Dawn Jones, Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty	30 Mehefin 2019 30 Mawrth 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau pob elfen o'r hyfforddiant gorfodol.		Mae'r Uwch Reolwr Nyrsio yn monitro cydymffurfiaeth y staff yn fisol. Bydd y staff yn parhau i allu cael diwrnod astudio bob mis ar gyfer hyfforddiant gorfodol.	David Harrison, Uwch Reolwr Nyrsio	30 Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn parhau i gael ei monitro drwy broses Adolygiadau Arfarnu a Datblygiad Personol y staff.		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Dawn Jones**

Teitl swydd: **Pennaeth Nyrsio'r Ysbyty**

Dyddiad: **16/11/18**